




Cyfranogi Participation





Mae'r holl staff sy'n gweithio i'r Comisiynydd yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc mewn nifer o ffyrdd, gan sicrhau bod plant a phobl ifanc, lle bynnag y bônt yng Nghymru, yn cael eu hysbysu am y Comisiynydd, ac yn cael cyfle i gael gwrandawriad a dylanwadu ar waith y Comisiynydd.

Dan arweiniad ein Prif Swyddogion Gweithredol, mae ein tîm o dri Swyddog Cyfranogi'n cefnogi'r holl swyddogion yn eu gwaith gyda phlant a phobl ifanc.

All staff that work for the Commissioner work with children and young people in a number of ways, ensuring that children and young people, wherever they are from in Wales, are informed about the Commissioner, and have the opportunity to be listened to and influence the work of the Commissioner.

Led by our Chief Executive Officer, our team of three Participation Officers supports all other officers in their work with children and young people.


Ein gwaith eleni Our work this year

6200

Rydym ni wedi gweithio gyda thros 6200 o blant a phobl ifanc drwy ymweliadau ysgolion, digwyddiadau, gweithdai a gweminarau / We've worked with over 6200 children and young people through school visits, events, workshops and webinars



Keith



Mae dros 150 o ysgolion cynradd wedi ymuno â'n cynllun Llysgenhadon Gwych
Over 150 primary schools signed up to our Super Ambassadors scheme



Ymwelodd y Comisiynydd ag o leiaf un ysgol neu grŵp bob wythnos
The Commissioner visited at least one school or group every week

46

Helpodd 46 o blant i roi cychwyn ar ein gwaith ar ddarpariaeth seibiannau byr i blant a phobl ifanc ag anableddau
46 children helped kick-start our work on short breaks provision for children and young people with disabilities




124



Gweithiom ni gyda 124 o ddisgyblion fel rhan o'n hymchwil i unedau cyfeirio disgyblion yng Nghymru
We worked with 124 pupils as part of our research into pupil referral units in Wales

Cynhaliodd ni 5 gweminar o leoliadau ysgolion ar draws Cymru
We hosted 5 webinars from school locations across Wales

5



102

Cymerodd 102 o ysgolion ran mewn trafodaeth thematig arlein gyda'r Comisiynydd
102 schools took part in themed online discussions hosted by the Commissioner



900

Ymunodd dros 900 o ddisgyblion â'n gweminar ysgolion Sir Benfro
Over 900 pupils tuned in to our Pembrokeshire schools webinar

28

Mewngofnododd 28 o ysgolion
28 schools logged in



150

150 o gwestiynau i'r Comisiynydd
Generated 150 questions for the Commissioner

384

Cwblhaodd 384 o blant a phobl ifanc holiadur am ddarpariaeth eiriolaeth fel rhan o'n gwaith dilynol ar eiriolaeth i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal
384 children and young people completed a questionnaire all about advocacy provision as part of our follow up work on advocacy for looked after children and young people

Enghreifftiau o'n gwaith

Un o'r ffyrdd rydym ni'n gwrandao ar blant a phobl ifanc yw drwy ein rhwydwaith o ysgolion Llysgenhaddon Gwych. Disgyblion ysgol gynradd yw'r llysgenhaddon, a gaiff eu hethol gan eu cyfoedion; eu gwaith yw codi ymwybyddiaeth am Gomisiynydd Plant Cymru a hawliau plant yn eu hysgolion.

Mae ysgolion sy'n ymuno â'r cynllun drwy'r wefan – www.superambassadors.org.uk - yn gallu cael eu dangosfwrdd eu hunain i'w hysgol. Ar hwn maen nhw'n gallu postio ar ffrwyd newyddion preifat o'u hystafell ddosbarth i sicrhau bod y Comisiynydd a'i dîm yn cael y newyddion diweddaraf am eu gwaith. Dyma giplun o'r hyn a rannwyd gyda ni eleni:

Ysgol Gynradd Georgetown, Tredegar

Yn ddiweddar rydym ni wedi cwblhau ein bwrdd arddangos ar Hawliau'r Plentyn y Cenhedloedd Unedig yn neuadd yr ysgol. Mae'r Bwrdd yn cynnwys detholiad o hawliau plant oedd yn allweddol ym marn y Llysgenhaddon. Rydym ni wedi cynnal gwasanaethau ar hyn ac wedi'i drafod fel ysgol gyfan.

Ysgol Pen-y-Bryn, Abertawe

Ymwelodd Keith Towler a'n hysgol ni. Rhoddodd Cyngor yr Ysgol gyflwyniad am y gwaith maen nhw wedi'i wneud eleni. Siaradodd hefyd gyda dau ddisgybl am seibiannau byr. Cawsom brynhawn gwych yn dangos yr ysgol i Keith a gobeithio iddo fwynhau cymaint ag y gwnaethom ni!

Ysgol Gynradd Llangrallo

Mae ein hysgol ni yn ysgol 'Beiciwch Hi' a'r wythnos hon fe fydd ein disgyblion yn cwblhau'r Arolwg Llwybrau Diogel i'r Ysgol. Mae ein Llysgenhaddon Gwych hefyd yn cymryd rhan mewn ymgynghoriad lleol ar ddatblygu llwybrau mwy diogel yn Sir Pen-y-bont.

'Tasg Arbennig' iawn

Fel rhan o'u rôl fel Llysgenhaddon Gwych, rhaid i ddisgyblion gwblhau tasgau arbennig, gan gasglu barn gan gyfoedion ar amrywiaeth eang o faterion; barn sy'n bwydo'n uniongyrchol i waith y Comisiynydd.

Yn dilyn cyfarfod rhwng y Comisiynydd ac Edwina Hart AC, Gweinidog Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru, cyfarfu ein swyddogion polisi a chyfranogiad â chynrychiolwyr o Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth i edrych ar ffydd y gellid creu Tasg Arbennig yn ymwneud ag ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Ganllawiau ar yr Asesiad Risg o Lwybrau Cerdded i'r Ysgol.

Gosodwyd y dasg. Roedd yn cynnwys cwestiynau amrywiol i ganfod pwy oedd yn cerdded i'r ysgol, eu hoed, a beth oedd yn gwneud i ddisgyblion deimlo'n anniogel ar eu ffordd i'r ysgol.

— Cafwyd 540 o ymatebion a gyfrannodd yn uniongyrchol at ganllawiau diwygiedig Llywodraeth Cymru. Mae barn ein Llysgenhaddon Gwych hefyd yn cael ei hymgorffori yn y Canllawiau Gweithredol ynghylch y Mesur Teithio gan Ddysgwyr.

— Roedd nifer fawr o bryderon hefyd yn ymwneud â pheryglon cymdeithasol yn ogystal ag ofn traffig; roedd y rhain yn ymwneud ag ofn canfyddedig plant o 'ddieithriaid' a chael eu 'cipio'. Rydym ni wedi ymrwymo i drafod y pryderon hyn ymhellach gyda swyddogion perthnasol yn Llywodraeth Cymru er mwyn mynd i'r afael â'r materion ehangach a godwyd gan y plant drwy'r darn hwn o waith.

Examples of work

One of the ways we listen to children and young people is through our network of Super Ambassador schools. Ambassadors are primary school pupils who are elected by their peers; their job is to raise awareness about the Children's Commissioner for Wales and children's rights within their schools.

Schools that sign up to the scheme via the website – www.superambassadors.org.uk – have access to their very own school dashboard. Here they can post onto a private newsfeed from their classroom to keep the Commissioner and his team up-to-date with their work. Here's a snapshot of what was shared with us this year:

Georgetown C.P. School, Tredegar

We have recently completed our United Nations Rights of the Child display board in the school hall. The Board features a selection of children's rights that the Ambassadors felt were key. We have held assemblies on this and discussed this as a whole school.

Ysgol Pen-y-Bryn, Swansea

Keith Towler visited our school. The School Council gave a presentation about the work they have done this year. He also spoke to two pupils about short breaks. We had a great afternoon showing Keith around our school we hope he enjoyed it as much as we did!

Coychurch (Llangrallo) Primary School

Our school is a 'Bike It' school and this week our pupils will be completing the Safe Routes to School Survey. Our Super Ambassadors are also taking part in a local consultation on developing safer routes in Bridgend County.

A very 'Special Mission'

As part of their role as Super Ambassadors, pupils are required to complete special missions, canvassing opinions from peers on a wide range of issues; opinions which are then fed directly into the Commissioner's work.

Following a meeting between the Commissioner and Edwina Hart AM, Welsh Government's Minister for Transport, our policy and participation officers met with representatives from the Department for Economy, Science and Transport to explore ways in which a Special Mission could be created around the Welsh Government's consultation on 'Guidance on the Risk Assessment of Walked Routes to school'.

A mission was set. It included a variety of questions to find out who walked to school, how old they were and what made pupils feel unsafe on their routes to schools.

— 540 responses were received and directly informed the Welsh Government's revised guidance. Our Super Ambassadors' views are also being incorporated into the revised Learner Travel Operational Guidance.

— There was also a high number of concerns relating to social dangers as well as fear of traffic; these were related to children's perceived fear of 'strangers' and 'abductions'. We have committed to discuss these concerns further with relevant Welsh Government officials in order to address the wider issues that were raised by children through this piece of work.

Enghreifftiau o'n gwaith Examples of work

Gwaith gyda'r Ddraig Ffynti

Mae gwaith wedi parhau rhyngom ni a'r Ddraig Ffynti, y Cynulliad Cenedlaethol i Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru, gyda grŵp penodol o bobl ifanc yn cyfarfod yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn i gynyddu eu hymwybyddiaeth o rôl a gwaith y Comisiynydd a rhoi adborth a mewnbwn i'r broses o adolygu a chynllunio ein gwaith. Cysgododd aelodau o'r grŵp y Comisiynydd i weld ein gwaith drostyn nhw eu hunain, gan gynnwys ein cynllun Llysgenhadon Gwych, y digwyddiad Kids in Museums a gwaith gyda phlant a phobl ifanc ag anableddau. Hoffem gydnabod brwdfrydedd ac ymrwymiad yr holl bobl ifanc dan sylw.

Work with Funky Dragon

Work has continued between us and Funky Dragon, the National Assembly for Children and Young People in Wales, with a dedicated group of young people meeting regularly over the year to increase their awareness of the role and work of the Commissioner and provide feedback and input into the review and planning of our work. Members of the group shadowed the Commissioner to see our work first-hand, including our Super Ambassadors scheme, Kids in Museums event and work with children and young people with disabilities. We would like to recognise the enthusiasm and commitment of all the young people involved.



Enghreifftiau o'n gwaith Examples of work

Gwaith gyda'n Llysgenhadon Cymunedol

Yn ei Strategaeth Tlodi Plant eglurodd y Comisiynydd ei fwriad i beilotu cynllun Llysgenhadon Cymunedol. Gan adeiladu ar ein cynllun Llysgenhadon Ysgolion, bwriad y cynllun Llysgenhadon Cymunedol yw targedu plant a phobl ifanc sy'n byw mewn ardaloedd o amddiffiad cymdeithasol a/neu o grwpiau difreintiedig. Disgwylir i'r Llysgenhadon Cymunedol wneud y canlynol:

— Dweud wrth eraill am y CCUHP

— Dweud wrth eraill am Gomisiynydd Plant Cymru

— Bod yn llais i'r Comisiynydd Plant ar lawr gwlad a rhannu'r pethau gwych sy'n digwydd mewn cymunedau lleol, fel bod y Comisiynydd yn gallu dweud wrth bobl eraill, yn ogystal â sôn wrtho am unrhyw beth sydd angen help i wella eu hardal.

Mae tri chynllun peilot bellach wedi'u cynnal mewn cymunedau yn Ne Cymru: yng nghymunedau Glyncoch (Rhondda Cynon Taf), Adamsdown (Caerdydd) a thrwy Brosiect Pobl Ifanc Sengl Ddigartref Abertawe. Mae Asiantaeth Ffilm Cymru wedi comisiynu gwaith gyda'r tair ardal beilot i ddarparu gweithdai technoleg a deunydd ar gyfer adnodd DVD i gefnogi gwaith y cynllun yn y dyfodol. Dechreuodd dau grŵp peilot arall yng ngogledd Cymru ar eu gwaith yn ystod hydref 2013.

Ymhlith y materion a godwyd gan y Llysgenhadon Cymunedol gyda'r Comisiynydd oedd problemau'n ymwneud â defnyddio cyffuriau yn y gymuned, hiliaeth, gwahaniaethu ar sail oed, gwahaniaethu ar sail anabledd ac agweddau mewn Canolfannau Gwaith.

Work with our Community Ambassadors

The Commissioner set out in his Child Poverty Strategy his intention to pilot a Community Ambassadors scheme. Building on our School Ambassadors scheme, the Community

Ambassadors scheme is intended to target children and young people living in areas of social deprivation and/or from disadvantaged groups. The Community Ambassadors are expected to:

— Tell others about the UNCRC

— Tell others about the Children's Commissioner for Wales

— Be a voice for the Children's Commissioner on the ground to tell him about the positive things that are happening in their communities so he can share them with others and tell him about anything that they think they need help to improve in their area.

The scheme has now been piloted in three south Wales communities: Glyncoch (Rhondda Cynon Taf), Adamsdown (Cardiff) and through Swansea Young Single Homeless Project. Film Agency Wales has commissioned work with the three pilot areas to provide technical workshops and to provide material for a DVD resource to support the future roll-out of the scheme. A further two pilot groups in north Wales were starting work in the autumn 2013.

Issues raised by the Community Ambassadors with the Commissioner included problems associated with drug use in the community, racism, age-discrimination, disability discrimination and attitudes at Job Centres.

